
Dogfennau Ategol – Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:	I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Fideogynadledda drwy Zoom	P Gareth Williams
Dyddiad: Dydd Llun, 26 Ionawr 2026	Clerc y Pwyllgor
Amser: 13.30	0300 200 6565
	SeneddDCC@senedd.cymru

O bell – Pecyn Atodol

Noder bod y dogfennau a ganlyn yn ychwanegol i'r dogfennau a gyhoeddwyd yn y prif becyn Agenda ac Adroddiadau ar gyfer y cyfarfod hwn

3 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 (13.35 – 13.40)

3.2 SL(6)707 – Rheoliadau Adeiladu (Gweithdrefnau Adeiladau Risg Uwch) (Cymru) 2025

(Tudalennau 1 – 5)

[Rheoliadau](#)

[Memorandwm Esboniadol](#)

Dogfennau atodol:

LJC(6)–03–26 – Papur 4 – Adroddiad drafft

3.3 SL(6)708 – Rheoliadau Adeiladu etc. (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2025

(Tudalennau 6 – 12)

[Rheoliadau](#)

[Memorandwm Esboniadol](#)

Dogfennau atodol:

LJC(6)–03–26 – Papur 5 – Adroddiad drafft

3.5 SL(6)704 – Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Ty Gwydr (Diwygio) 2026

(Tudalen 13)



[Gorchymyn](#) [Saesneg yn unig]

[Memorandwm Esboniadol](#)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-03-26 – Papur 31 – Ymateb Llywodraeth Cymru

4 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.7

(13.40 – 13.45)

4.1 SL(6)711 – Rheoliadau Deddf Diogelwch Adeiladau 2022 (Cychwyn Rhif 6) (Cymru) 2025

(Tudalen 14)

[Rheoliadau](#)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-03-26 – Papur 32 – Ymateb Llywodraeth Cymru

5 Offerynnau sy'n codi materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 – trafodwyd eisoes

(13.45 – 13.50)

5.2 SL(6)694 – Rheoliadau Deddf Caffael 2023 (Symiau Trothwy) (Diwygio) (Cymru) 2025

(Tudalennau 15 – 19)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-03-26 – Papur 33 – Adroddiad

LJC(6)-03-26 – Papur 34 – Ymateb Llywodraeth Cymru

6 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.7 – trafodwyd eisoes

(13.50 – 13.55)

6.1 SL(6)698 – Cod Ymarfer Treuliau Etholiadau Ymgeiswyr Unigol (Etholiadau'r Senedd) 2025

(Tudalennau 20 – 23)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-03-26 – Papur 35 – Adroddiad

LJC(6)-03-26 – Papur 36 – Ymateb Llywodraeth Cymru

6.2 SL(6)699 – Cod Ymarfer Gwariant Ymgyrch Pleidiau Gwleidyddol (Etholiadau'r Senedd) 2025

(Tudalennau 24 – 26)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-03-26 – Papur 37 – Adroddiad

LJC(6)-03-26 – Papur 38 – Ymateb Llywodraeth Cymru

6.3 SL(6)700 – Cod Ymarfer Gwariant Ymgyrch Ymgyrchwyr Nad Ydynt yn Bleidiau (Etholiadau'r Senedd) 2025

(Tudalennau 27 – 30)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-03-26 – Papur 39 – Adroddiad

LJC(6)-03-26 – Papur 40 – Ymateb Llywodraeth Cymru

8 Papurau i'w nodi

(14.00 – 14.05)

8.2 Datganiad Ysgrifenedig gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig: Ymgynghoriad ar Newidiadau Arfaethedig i Gynlluniau Ffioedd a Thaliadau Awdurdodau Lleol o dan Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016

(Tudalennau 31 – 32)

Dogfennau atodol:

LJC(6)-03-26 – Papur 41 – Datganiad Ysgrifenedig gan y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, 23 Ionawr 2026

8.3 Gohebiaeth gan y Pwyllgor Safonau Ymddygiad at y Pwyllgor y Bil

Atebolrwydd Aelodau: Bil Senedd Cymru (Atebolrwydd Aelodau ac Etholiadau)

(Tudalennau 33 – 34)

Dogfennau atodol:

LJC(6)–03–26 – Papur 42 – Llythyr gan y Pwyllgor Safonau Ymddygiad at y Pwyllgor y Bil Atebolrwydd Aelodau, 23 Ionawr 2026 [Saesneg yn unig]

8.4 Gohebiaeth gan y Gymdeithas Llety Tymor Byr at Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg: Bil Datblygu Twristiaeth a Rheoleiddio Llety Ymwelwyr

(Tudalennau 35 – 36)

Dogfennau atodol:

LJC(6)–03–26 – Papur 43 – Llythyr gan y Gymdeithas Llety Tymor Byr at Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, 23 Ionawr 2026 [Saesneg yn unig]

SL(6)707 - Rheoliadau Adeiladu (Gweithdrefnau Adeiladau Risg Uwch) (Cymru) 2025

Cefndir a Diben

Gwneir y Rheoliadau hyn o dan bwerau a roddwyd gan Ddeddf Adeiladu 1984, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Diogelwch Adeiladau 2022. Maent yn gymwys yn benodol i Gymru ac yn rhan o gyfres o ddiwygiadau wedi'u hanelu at wella diogelwch adeiladau yn dilyn trasiedi Tŵr Grenfell.

Prif nod y Rheoliadau yw creu proses ar gyfer cymeradwyo rheolaeth adeiladu yn benodol ar gyfer adeiladau risg uwch.

Mae'r Rheoliadau'n cyflwyno system strwythuredig ar gyfer rheoli newid, gyda'r nod o sicrhau y caiff unrhyw newidiadau dylunio neu adeiladu eu hasesu'n briodol, eu dogfennu, a'u cymeradwyo, gan gynnal uniondeb y dyluniad gwreiddiol a'i nodweddion diogelwch. Mae'r Rheoliadau hefyd yn ei gwneud yn ofynnol creu'r "llyn aur" ar gyfer gwybodaeth adeiladu, sef cofnod digidol sy'n ategu'r broses o wneud penderfyniadau a thryloywder drwy gydol oes yr adeilad, a'i gynnal yn barhaus.

Mae'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol rhoi gwybod am unrhyw ddigwyddiadau diogelwch ac yn pennu prosesau ar gyfer gwneud cais am dystysgrifau cwblhau'n llawn a thystysgrifau cwblhau'n rhannol ac ar gyfer dyroddi'r dystysgrifau hyn. Darperir systemau ar gyfer unioni gwaith heb ei awdurdodi, gan helpu i sicrhau bod datblygiadau nad ydynt yn cydymffurfio yn gweithredu'n unol â'r gofynion cyfreithiol.

Mae'r Rheoliadau yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud penderfyniadau a gwrando apeliadau o dan adran 30A o Ddeddf Adeiladu 1984.

Gweithdrefn

Negyddol

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Caiff y Senedd annilysu'r Rheoliadau o fewn 40 niwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

Materion technegol: craffu

Nodwyd y 16 pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

- 1. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**



Yn rheoliad 2(1), yn y diffiniad o "ceisydd", mae'n nodi bod y diffiniad yn gymwys "oni fydd y cyd-destun yn mynnu fel arall". Byddai'n gliriach ac yn fwy defnyddiol i'r darllenydd pe bai'n nodi ble yn y Rheoliadau hyn y mae ystyr gwahanol i "ceisydd" yn gymwys.

2. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.

Yn rheoliad 2(1), diffinnir y term "gwybodaeth am ddiogelwch tân" gyda'r ystyr a roddir gan rheoliad 38(9) o'r Rheoliadau hyn. Fodd bynnag, mae rheoliad 2(1) yn rhoi'r ystyr hwnnw i'r term ar gyfer y Rheoliadau cyfan ond mae'r diffiniad yn rheoliad 38(9) yn nodi bod gan y term yr ystyr hwnnw "Yn y rheoliad hwn" yn unig. Yn ogystal, defnyddir y term hefyd yn rheoliad 37(5) o'r Rheoliadau hyn. Felly, nid yw'n glir ble mae diffiniad y term "gwybodaeth am ddiogelwch tân" yn gymwys yn y Rheoliadau hyn.

3. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.

Yn rheoliad 7(13), yn y testun Cymraeg, diffinnir y ffurfiau gramadegol gwahanol "a bennir" a "penodedig" ill dwy. Fodd bynnag, yn rheoliad 24(11), dim ond y term "penodedig" a ddiffinnir er bod "a bennir" a "penodedig" hefyd yn cael eu defnyddio yn nhestun Cymraeg rheoliad 24. Felly, mae'r testun Cymraeg yn anghyson o ran a yw'r holl ffurfiau gramadegol a ddefnyddiwyd i fynegi term diffiniedig wedi'u nodi neu ai dim ond un ffurf ramadegol o'r term a nodir.

4. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.

Yn rheoliad 9(2) a (3), mae amrywiad rhwng y defnydd o "diwrnod" a'r term diffiniedig "diwrnod gwaith" wrth ddisgrifio cyfnod o amser. Yn rheoliad 9(2) mae'n cyfeirio at "O leiaf 5 niwrnod gwaith" ond yn rheoliad 9(3), mae'n cyfeirio at "O fewn 5 niwrnod". Mae'r disgrifiadau gwahanol hyn hefyd yn codi wrth ddisgrifio'r un cyfnod o amser yn rheoliad 17(2) a (3). A yw'r amrywiad rhwng y defnydd o "diwrnod" a "diwrnod gwaith" yn fwriadol yn y disgrifiadau hyn?

5. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn.

Yn rheoliad 12(1)(e)(i), mae gwahaniaeth rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg. Mae'r testun Saesneg yn nodi "details of the intended use of each storey" ond mae'r testun Cymraeg yn nodi "fanylion am ddefnydd arfaethedig pob llawr". Yn hyn o beth, mae'r testun Cymraeg hefyd yn anghyson â'r darpariaethau eraill yn y Rheoliadau hyn lle defnyddiwyd "bwriadedig" i fynegi "intended" yn yr un cyd-destun, ond defnyddiwyd "arfaethedig" i fynegi "proposed".

6. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol.



Yn rheoliad 15(1)(a), mae'n cyfeirio at asesiad y cleient yn rheoliad 12(1)(d)(viii)(bb). Fodd bynnag, nid oes paragraff (viii)(bb) yn is-baragraff 12(1)(d). A ddylai rheoliad 15(1)(a) gyfeirio at ddarpariaeth wahanol, er enghraifft, rheoliad 12(1)(e)(viii)(bb)?

7. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.

Yn rheoliad 18(2), ar y dechrau mae'n nodi "Cyn y gellir cyflawni unrhyw newid a reolaethir, rhaid i'r cleient sicrhau...". Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod y gair "gellir" yn cyfeirio at ganiatâd cyfreithiol yn hytrach na chyfeirio at bosibilrwydd yn unig. Yn yr achos hwnnw, dylid defnyddio "caniateir" yn hytrach na "gellir".

8. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.

Yn rheoliad 27(4)(i), disgrifir y cyfeiriad fel "(ac eithrio paragraff (bb))". A ddylai hyn gyfeirio at "(paragraff (ii)(bb))"?

9. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn.

Yn rheoliad 31(1)(b)(ii), mae gwahaniaeth rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg. Mae'r testun Saesneg yn nodi "have access to the facility" ond mae'r testun Cymraeg yn nodi "gael mynediad at y cyfleuster electronig". Yn hyn o beth, mae'r testun Cymraeg yn gywir oherwydd bod "cyfleuster electronig" yn derm diffiniedig a nodir yn rheoliad 31(13).

10. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.

Yn rheoliad 31(13), mae'n nodi bod y ddau derm "cyfleuster electronig" a "gwybodaeth llinyn aur" wedi'u diffinio gydag ystyr "Yn y Rheoliadau hyn". Fodd bynnag, dim ond yn rheoliad 31 y defnyddir y term "cyfleuster electronig", felly dylid ei gyflwyno fel un sydd ag ystyr "Yn y rheoliad hwn". Ond defnyddir y term "gwybodaeth llinyn aur" hefyd mewn rheoliadau eraill fel rheoliadau 27 a 37, ac Atodlen 1. Felly, dylid cynnwys y diffiniad o "gwybodaeth llinyn aur" yn rheoliad 2(1) sef y ddarpariaeth ddehongli gyffredinol ar gyfer termau a ddefnyddir yn y Rheoliadau hyn.

11. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.

Yn rheoliad 32(2), mae'n cyfeirio at "y digwyddiadau neu'r sefyllfaoedd y dylai'r person sy'n adrodd adrodd amdanynt". Gan fod y gair "dylai" i bob golwg yn cyfeirio at rwymedigaeth gyfreithiol a roddir ar y person sy'n adrodd, a ddylid dweud "y mae'n rhaid i'r person" yn lle "y dylai'r person"?

12. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.



Yn rheoliad 35(1), mae'n nodi bod gan y diffiniadau ystyr "Yn rheoliadau 32 i 34" o'r Rheoliadau hyn. Fodd bynnag, defnyddir y term "cyfnod adeiladu" hefyd yn rheoliad 31 o'r Rheoliadau hyn ond ni chaiff ei ddefnyddio o gwbl yn rheoliad 34. Felly, nid yw'n glir ble mae diffiniad y term hwn yn gymwys yn y Rheoliadau hyn. Yn ogystal, dim ond yn rheoliad 32 y defnyddir y termau "gwaith dylunio ARU" a "person sy'n adrodd" yn hytrach na rheoliadau "32 i 34". Felly, efallai y byddai'n gliriach pe bai'r ddau ddiffiniad hyn yn ymddangos mewn darpariaeth ddehongli ar wahân ar gyfer rheoliad 32.

13. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.

Mae Rheoliad 47(5) yn nodi bod yn rhaid i Weinidogion Cymru hysbysu'r apelydd am y canlyniad "o fewn 13 o wythnosau sy'n dechrau â'r diwrnod drannoeth y diwrnod y mae'r person yn rhoi hysbysiad o dan baragraff (2)". Fodd bynnag, mae paragraff (2) yn amlinellu'r personau a gaiff apelio yn erbyn y penderfyniad ym mharagraff (1). A ddylai rheoliad 47(5) gyfeirio at baragraff gwahanol, er enghraifft, paragraff (3), yn hytrach na pharagraff (2)?

14. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.

Yn rheoliad 49(3), gellid dadlau nad yw'n amlwg i'r darllenydd y byddai termau sydd wedi'u diffinio at ddibenion Rhan 6 gyfan i'w cael yn rheoliad 49(3). Efallai y byddai'n fwy defnyddiol i'r darllenydd pe bai'r termau hynny wedi'u diffinio mewn darpariaeth ddehongli ar wahân ar gyfer Rhan 6. Yn ogystal, nid yw'r diffiniadau wedi'u rhestru yn nhrefn yr wyddor yn nhestun Saesneg rheoliad 49(3).

15. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.

Yn Atodlen 1, ym mharagraff 5(1)(d), cyfeirir at "Atodlen 1 i Reoliadau Adeiladu 2010". Fodd bynnag, diffiniwyd Rheoliadau Adeiladu 2010 fel "Rheoliadau 2010" gan rheoliad 2(1) o'r Rheoliadau hyn. Felly, dylid bod wedi defnyddio'r term diffiniedig "Rheoliadau 2010" yn y cyfeiriad hwn yn Atodlen 1.

16. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.

Yn Atodlen 2, ym mharagraff 3, diffinnir y term "gwasanaeth sefydlog adeilad" ar gyfer Atodlen 2. Fodd bynnag, defnyddir y term hefyd mewn darpariaethau eraill fel rheoliadau 37(5), 38(7), a 46(12) o'r Rheoliadau hyn. Felly, nid yw'n glir a fwriedir i'r term "gwasanaeth sefydlog adeilad" fod â'r un ystyr yn y darpariaethau eraill hyn o'r Rheoliadau hefyd.

Rhinweddau: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.



Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

Cynghorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

21 Ionawr 2026



Senedd Cymru

Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

—

Welsh Parliament

Legislation, Justice and Constitution Committee

Tudalen y pecyn 5

Eitem 3.3

SL(6)708 – Rheoliadau Adeiladu etc. (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2025

Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Adeiladu 2010 ac is-ddeddfwriaeth gysylltiedig arall yng Nghymru i weithredu darpariaethau Rhan 3 o Ddeddf Diogelwch Adeiladu 2022. Mae'r diwygiadau'n cyflwyno gofynion gweithdrefnol newydd, yn egluro dyletswyddau a chymwyseddau deiliaid dyletswyddau, yn sefydlu mecanweithiau ar gyfer gorfodi ac apeliadau mewn perthynas â rheolaeth adeiladu, ac yn darparu trefniadau trosiannol ar gyfer gwaith a ddechreuwyd neu a gymeradwywyd cyn y dyddiad dod i rym.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn gwneud mân ddiwygiadau digyswllt i Reoliadau Adeiladu 2010 a diwygiadau canlyniadol i offerynnau statudol eraill.

Mae Rhan 2 (rheoliadau 2-15) o'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Adeiladu 2010.

Mae Rhan 3 (rheoliadau 16-18) o'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r is-ddeddfwriaeth a ganlyn:

- Rheoliadau Adeiladu (Taliadau Awdurdodau Lleol) 2010;
- Rheoliadau Adeiladu (Cymeradwywyr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladau etc.) (Cymru) 2024;
- Rheoliadau Adeiladu (Gweithgareddau a Swyddogaethau Cyfyngedig) (Cymru) 2024.

Mae Rhan 4 (rheoliadau 19-22) o'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaethau trosiannol, atodol ac arbed.

Y weithdrefn

Negyddol.

Cafodd y Rheoliadau hyn eu gwneud gan Weinidogion Cymru cyn eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd annilysu'r Rheoliadau o fewn 40 niwrnod (ac eithrio unrhyw ddyddiau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

Materion technegol: craffu

Nodwyd y 23 pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.

Yn rheoliad 6(11)(a), yn y rheoliad 27(3)(b) newydd, mae'n nodi "not later than **five days**". Fodd bynnag, mae llawer o'r diwygiadau eraill a wneir i Reoliadau 2010 yn cyfeirio at



gyfnodau o amser a ddisgrifir fel "working days" megis y diwygiad a wneir gan reoliad 6(5)(c). Yn ogystal, defnyddiwyd ffigurau yn hytrach na geiriau i fynegi cyfnodau o ddyddiau mewn mannau eraill yn y diwygiadau. Felly, a ddylai gyfeirio at "not later than **5 working days**" yn y diwygiad hwn hefyd? Mae hyn hefyd yn digwydd yn y rheoliad newydd 16(2A) a fewnosodwyd gan reoliad 9(1)(d) o'r Rheoliadau hyn lle mae'n cyfeirio at "Not more than 5 days...".

2. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol

Yn rheoliad 6(13)(a), yn y rheoliad 27B(2)(b) newydd, mae'n cyfeirio'n anghywir at y materion a nodir yn "paragraphs **(1)** to (iii) of sub-paragraph (a)". Fodd bynnag, dylid cyfeirio ato gan ddefnyddio rhifolyn Rhufeinig yn hytrach na rhifolyn Arabaidd fel "paragraphs **(i)** to (iii) of sub-paragraph (a)". Fel arall, gellid ei ddehongli fel cyfeiriad at baragraff (1) o reoliad 27B.

3. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.

Yn rheoliad 6(13)(a), yn y rheoliad 27B(3)(b) newydd, mae'r cyfeiriad at y materion a grybwyllir "in sub-paragraphs (aa) to (cc)" yn anghyflawn oherwydd nid yw'n nodi eu bod i'w cael yn is-baragraff (a)(i) o reoliad 27B(3). Felly, dylai gyfeirio at y materion a grybwyllir "in sub-paragraphs (aa) to (cc) **of sub-paragraph (a)(i)**" (fel enghraifft gywir, gweler y rheoliad 27C(3)(b) newydd a fewnosodwyd gan reoliad 6(14)(a) o'r Rheoliadau hyn).

4. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol

Yn rheoliad 6(14)(a), yn y rheoliad 27C(2)(b) newydd, mae'n cyfeirio'n anghywir at y materion a nodir yn "**paragraphs (i) to (iii)** of sub-paragraph (a)". Fodd bynnag, nid oes paragraff (iii) yn is-baragraff (a). Felly, dylai gyfeirio at y materion a nodir yn "**paragraphs (i) and (ii)** of sub-paragraph (a)".

5. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol

Yn rheoliad 16(2)(a), yn y diffiniad newydd o "local authority" sydd wedi'i fewnosod yn rheoliad 2 o Reoliadau Adeiladu (Taliadau Awdurdodau Lleol) 2010, mae'n cyfeirio at "section 91ZD of **the 1984 Act**". Fodd bynnag, mae Deddf Adeiladu 1984 wedi'i diffinio fel "the Act" gan reoliad 2 o'r Rheoliadau hynny. Felly, mae'r diffiniad newydd yn methu â defnyddio'r diffiniad cywir o Ddeddf Adeiladu 1984. Mae hefyd yn anghyson â'r diwygiadau testunol newydd eraill a wnaed i Reoliadau Adeiladu (Taliadau Awdurdodau Lleol) 2010 sydd wedi defnyddio'r diffiniad cywir.

6. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol



Yn rheoliad 16(7)(b), yn y testun newydd sy'n disodli rhywfaint o'r testun presennol yn rheoliad 14(1) o Reoliadau Adeiladu (Taliadau Awdurdodau Lleol) 2010, mae'n cyfeirio at "regulation 14E of **the Building Regulations 2010**". Fodd bynnag, mae Rheoliadau Adeiladu 2010 wedi cael eu diffinio fel "**the Principal Regulations**" gan reoliad 2 o Reoliadau Adeiladu (Taliadau Awdurdodau Lleol) 2010. Felly, mae'r diwygiad testunol newydd yn methu â defnyddio'r diffiniad cywir o Reoliadau Adeiladu 2010. Mae hefyd yn anghyson â'r diwygiadau testunol newydd eraill a wnaed i Reoliadau Adeiladu (Taliadau Awdurdodau Lleol) 2010 sydd wedi defnyddio'r diffiniad cywir.

7. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.

Yn rheoliad 17(4), yn y rheoliad newydd 6A(1) sy'n cael ei fewnosod yn y Rheoliadau Adeiladu (Cymeradwywyr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladau etc.) (Cymru) 2024 mae'n cyfeirio at "waith adeilad risg uwch". Yn ogystal, mae troednodyn cysylltiedig sy'n egluro bod y diffiniad o "higher-risk building work" i'w gael yn adran 120I(3) o Ddeddf Adeiladu 1984. Fodd bynnag, nid yw'n bosibl diffinio term drwy ran anweithredol o offeryn statudol fel troednodyn. Hefyd, nid yw Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 yn cynnwys darpariaeth sy'n cyfateb i adran 11 o Ddeddf Dehongli 1978, sy'n darparu bod gan ymadroddion a ddefnyddir mewn is-ddeddfwriaeth yr ystyr sydd ganddynt yn y Ddeddf y gwneir yr is-ddeddfwriaeth oddi tani. Dylai is-offeryn Cymreig gynnwys darpariaeth bendant lle bynnag y bwriedir i ymadrodd gario ystyron sy'n dod o'r ddeddfwriaeth sylfaenol. Dylid mewnosod diffiniad o "waith adeilad risg uwch" / "higher-risk building work" yn y Rheoliadau Adeiladu (Cymeradwywyr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladau etc.) (Cymru) 2024 os bwriedir iddo ddwyn yr un ystyr ag a roddir gan Ddeddf Adeiladu 1984.

8. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddifffgiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol

Yn rheoliad 17(6), yn y rheoliadau newydd 13A(7)(d) a 13B(1) sydd wedi'u mewnosod yn Rheoliadau Adeiladu (Cymeradwywyr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladu etc.) (Cymru) 2024, mae cyfeiriadau at "**y Ddeddf**" pan fo'n ymddangos ei fod yn cyfeirio at Ddeddf Adeiladu 1984. Fodd bynnag, mae Deddf Adeiladu 1984 wedi'i diffinio fel "**Deddf 1984**" gan reoliad 2 o'r Rheoliadau Adeiladu (Cymeradwywyr Rheoli Adeiladu Cofrestredig etc.) (Cymru) 2024. Mae'r diwygiadau testunol newydd hyn, felly, yn methu â defnyddio'r diffiniad cywir o Ddeddf Adeiladu 1984. Maent hefyd yn anghyson â'r diwygiadau testunol eraill a wnaed i Rheoliadau Adeiladu (Taliadau Awdurdodau Lleol) 2010 sydd wedi defnyddio'r diffiniad cywir megis y rheoliad newydd 6A(4) a fewnosodwyd gan reoliad 17(4) o'r Rheoliadau hyn.

9. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft.

Yn rheoliad 17(10)(c), mae gwahaniaeth rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg. Yn y testun Saesneg, mae'r diwygiad yn methu â nodi'n gywir y testun presennol i'w amnewid yn rheoliad 37 o'r Rheoliadau Adeiladu (Cymeradwywyr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladau etc.)



(Cymru) 2024. Mae'n nodi'r testun fel "section 35 of **the Act (penalty for contravening building regulations)** does not apply". Fodd bynnag, mae'r testun presennol yn nodi "section 35 of **the 1984 Act** does not apply" yn rheoliad 37 o Reoliadau 2024. Mae'r testun Cymraeg yn nodi'n gywir y testun presennol i'w amnewid, sydd i'w gael yn rheoliad 37 o'r Rheoliadau hynny.

10. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft.

Yn rheoliad 17(11), mae gwahaniaeth rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg. Yn y testun Saesneg, mae'r diwygiad yn anghywir oherwydd bod y geiriau "substitute" a "for" yn y drefn anghywir. Mae, felly, yn nodi "**substitute** "Parts 2 - 5" **for** "Parts 1-6"" yn rheoliad 42(1) o Reoliadau Adeiladu (Cymeradwywyr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladau etc.) (Cymru) 2024. Ond dylai nodi "**for** "Parts 2 - 5" **substitute** "Parts 1-6"" oherwydd "Parts 2 to 5" yw'r testun presennol yn rheoliad 42(1) a'r testun newydd a fydd yn ei ddisodli yw "Parts 1 - 6". Mae'r diwygiad wedi'i ddisgrifio'n gywir yn y testun Cymraeg. Mae'r un gwall a gwahaniaeth rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg hefyd yn digwydd yn y diwygiad a wnaed gan reoliad 17(12)(a) o'r Rheoliadau hyn.

11. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.

Yn rheoliad 17(12)(b), gellid dadlau y dylai'r geiriau "ar ôl ffurflen 5(C)" / "after form 5(W)" ymddangos ar ddechrau'r disgrifiad yn nhestunau'r ddwy iaith. Yn ogystal, byddai'r diwygiad yn gliriach pe bai rhai geiriau ychwanegol fel "a nodir" / "set out" wedi'u cynnwys ar ôl "ffurflen 6(C)" / "form 6(W)". Fel arall, gellid darllen y diwygiad fel pe bai'n cyfarwyddo bod Ffurflen 6(C) / Form 6(W) i'w mewnosod yn yr Atodlen i'r Rheoliadau newydd hyn.

12. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.

Yn rheoliad 17(13)(a), yn y paragraff newydd 6(d) sydd wedi'i fewnosod yn Atodlen 2 i'r Rheoliadau Adeiladu (Cymeradwywyr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladau etc.) (Cymru) 2024, mae'n cyfeirio at "asesiad y cleient o ba bryd y mae **goruchwyliaeth rheolaeth adeiladu** yn ofynnol ar gyfer y gwaith arfaethedig". Fodd bynnag, mae hefyd yn cyfeirio at "ar ba bryd y mae'r cleient yn ystyried bod **mewnbwn rheolaeth adeiladu** yn ofynnol" yn y paragraff 13 newydd a fewnosodir yn yr Atodlen honno i Reoliadau 2024 gan reoliad 17(13)(c) o'r Rheoliadau hyn. Yn ogystal, defnyddir y term "mewnbwn rheolaeth adeiladu" hefyd yn y rheoliad newydd 13B(4) a fewnosodwyd gan reoliad 17(6) o'r Rheoliadau hyn. A allai Llywodraeth Cymru, felly, gadarnhau a yw'r defnydd o'r term "goruchwyliaeth rheolaeth adeiladu" yn gywir yn y paragraff newydd 6(d) neu a ddylai nodi "mewnbwn rheoli adeiladu"? Mae'r un mater yn codi yn yr Atodlen, yn y Ffurflen 1(C) newydd, paragraff 4(c)(ii), Ffurflen 2(C), paragraff 3(e)(ii), a Ffurflen 4(C), paragraff 4(c)(ii), lle mae'r term "goruchwyliaeth rheolaeth adeiladu" hefyd wedi'i ddefnyddio.



13. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.

Yn rheoliad 17(13)(c), yn y paragraff 13 newydd, dylid defnyddio'r ymadrodd "caiff" yn hytrach na "gall" os yw'r paragraff yn rhoi pŵer cyfreithiol disgresiynol i'r awdurdod lleol i wrthod y mewnbwn rheoli adeiladu yn hytrach na mynegi posibilrwydd yn unig.

14. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft.

Yn rheoliad 18(2)(a), mae gwahaniaeth rhwng y testun Saesneg a'r testun Cymraeg. Yn y testun Saesneg, nodir y geiriau "a power in—" ar ddiwedd y testun newydd a fydd yn disodli rhywfaint o'r testun presennol yn rheoliad 3(2)(b) o Reoliadau Adeiladu (Gweithgareddau a Swyddogaethau Cyfyngedig) (Cymru) 2024. Ond yn y testun Cymraeg, nid yw ystyr y geiriau hynny wedi'i gynnwys ar ddiwedd y testun newydd sy'n disodli'r testun presennol. Fodd bynnag, ymddengys bod y testun Saesneg yn anghywir oherwydd nad yw'r geiriau "a power in—" wedi'u nodi fel rhan o'r testun presennol i'w ddisodli. Effaith y diwygiad testunol, felly, a wnaed gan y testun Saesneg yw y bydd y geiriau hynny'n ymddangos ddwywaith ar ddiwedd y testun diwygiedig fel y bydd yn darllen fel "a power in-a power in—" nad yw'n gwneud synnwyr.

15. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.

Ym mhennawd rheoliad 19, mae'n cyfeirio at "Rheoliadau Adeiladu 2010" ond mae'r Rheoliadau hynny wedi'u diffinio fel "Rheoliadau 2010". Mae hefyd yn anghyson â chorff y testun yn rheoliad 19 lle mae'r term diffiniedig "Rheoliadau 2010" wedi'i ddefnyddio.

16. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.

Yn rheoliad 19(b)(i), mae cyfeiriad at "adran 16 o'r Ddeddf" pan fo'r term "y Ddeddf" i'w weld yn cyfeirio at Ddeddf Adeiladu 1984. Fodd bynnag, nid yw'r term "y Ddeddf" wedi'i ddiffinio fel Ddeddf Adeiladu 1984 at ddiben y rheoliad hwn nac yn y Rheoliadau hyn. Yn ogystal, mae hefyd yn anghyson â darpariaethau trosiannol rheoliadau 21 a 22 lle mae teitl y Ddeddf honno wedi'i nodi'n llawn yn y cyfeiriadau.

17. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.

Yn rheoliad 19, defnyddir y termau "gwaith adeiladu" a "hysbysiad adeiladu" sef termau sydd wedi'u diffinio gydag ystyr yn Rheoliadau Adeiladu 2010. Fodd bynnag, nid yw'r termau hynny wedi'u diffinio gyda'r un ystyr at ddiben y rheoliad hwnnw yn y Rheoliadau hyn.



18. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.

Yn rheoliad 21, defnyddir y term "hysbysiad adeiladu" hefyd, sef term sydd wedi'i ddiffinio gydag ystyr yn Neddf Adeiladu 1984. Yn yr un modd, defnyddir y termau "hysbysiad cychwynnol", "planiau", a "tystysgrif blaniau" yn rheoliad 22 sydd hefyd yn dermau a ddiffinnir yn y Ddeddf honno. Fodd bynnag, yr unig derm sydd wedi'i ddiffinio gydag ystyr ar gyfer rheoliad 21 neu 22 yw "tystysgrif blaniau" sydd wedi'i ddiffinio gydag ystyr ar gyfer rheoliad 22. Ymddengys y dylid diffinio'r holl dermau a ddiffinnir gan Ddeddf Adeiladu 1984 ac a ddefnyddir hefyd yn rheoliadau 21 a 22 at ddibenion y rheoliadau hynny. Yn ogystal, mae'n ymddangos ei bod yn anghyson diffinio rhai o'r termau hynny fel "tystysgrif blaniau" ond nid pob un ohonynt.

19. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft.

Yn yr Atodlen, yn y Ffurflen 5(C) newydd, ym mharagraff 2, mae gwahaniaeth rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg. Yn y testun Saesneg, mae'n nodi "and the work described above was" ond yn y testun Cymraeg, mae'n nodi "a'r gwaith uchod oedd".

20. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.

Yn yr Atodlen, yn y Ffurflen 5(C)) newydd, ym mharagraffau 9 a 10, yn y testun Cymraeg, mae "it" wedi'i fynegi drwy ddefnyddio "ei fod" wrth gyfeirio at "(2)". Fodd bynnag, mae'r ymadrodd "ei fod neu ei bod" wedi cael ei ddefnyddio mewn mannau eraill yn nhestun Cymraeg y Ffurflen hon ar bob achlysur wrth gyfeirio at "(2)". Mae'r paragraffau hyn, felly, yn anghyson â'r dull a gymerwyd mewn mannau eraill yn nhestun Cymraeg y Ffurflen hon ac yn y Ffurflenni eraill.

21. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft.

Yn yr Atodlen, yn y Ffurflen 5(C) newydd, ym mharagraff 13, mae gwahaniaeth rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg. Yn y testun Saesneg, mae'n nodi "specified" ond gellid dadlau mai'r ystyr a roddir gan y testun Cymraeg yw "noted" ("nodwyd"). Mae'r gair "pennu" yn derm cliriach ar gyfer "specify".

22. Rheol Sefydlog 21.2(vii) – ei bod yn ymddangos bod anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg yr offeryn neu'r drafft.

Yn yr Atodlen, yn y Ffurflen 6(C) newydd, mae gwahaniaeth rhwng y testun Cymraeg a'r testun Saesneg. Yn y testun Saesneg, ym mhennawd y Ffurflen, caiff teitl y Rheoliadau Adeiladu (Cymeradwywyr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladau etc.) (Cymru) 2024 ei ddiffinio fel "(Rheoliadau 2024)". Fodd bynnag, nid oes diffiniad cyfatebol i "(the 2024 Regulations)" yn nhestun Cymraeg pennawd y Ffurflen honno.



23. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.

Yn yr Atodlen, yn y Ffurflen 1(C) newydd, paragraff 4(a), Ffurflen 2(C), paragraff 3(c) a Ffurflen 4(C), paragraff 4(a), defnyddiwyd termau megis "carthbwl", "carthffos" a "carthffos breifat" sydd wedi'u diffinio ag ystyr yn Neddf Adeiladu 1984. Fodd bynnag, nid ydynt wedi'u diffinio yn y Rheoliadau Adeiladu (Cymeradwywyr Cofrestredig Rheolaeth Adeiladau etc.) (Cymru) 2024 nac yn y Ffurflenni hyn. Ymddengys y dylid diffinio'r termau hyn yn Rheoliadau 2024 neu yn y Ffurflenni hyn os bwriedir iddynt ddwyn yr un ystyr ag a roddir gan Ddeddf Adeiladu 1984.

Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

24. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Mae paragraff 2.1 o'r Memorandwm Esboniadol (Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad) yn nodi fel a ganlyn:

"Yn dilyn adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad mewn perthynas â Rheoliadau Adeiladu etc. (Diwygio) (Cymru) 2025(SL(6)6061)¹, rydym wedi diwygio'r drafftio i reoliadau 15 o'r Rheoliadau hyn i fynd i'r afael â sylwadau yn y pwyntiau Craffu Technegol a godwyd."

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â phwyntiau adrodd 1 i 23.

Cynghorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

21 Ionawr 2026

¹ <https://busnes.senedd.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=45427>



Government Response: *The Greenhouse Gas Emissions Trading Scheme (Amendment) Order 2026*

Technical Scrutiny point 1:

We are grateful to the Committee for bringing this to our attention. We accept the point raised. We are working alongside the other Governments who form the UK Emissions Trading Scheme Authority to determine the best option for addressing this issue, and aim to remedy the error at the earliest opportunity.

Ymateb y Llywodraeth: *Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Diwygio) 2026*

Pwynt Craffu Technegol 1:

Rydym yn ddiolchgar i'r Pwyllgor am dynnu ein sylw at y mater hwn. Rydym yn derbyn y pwynt a godwyd. Rydym yn gweithio ochr yn ochr â'r Llywodraethau eraill sy'n aelodau o Awdurdod Cynllun Masnachu Allyriadau'r DU i benderfynu ar yr opsiwn gorau ar gyfer mynd i'r afael â'r mater hwn, gyda'r bwriad o gywiro'r gwall cyn gynted ag y bo modd.

Eitem 4.1

Ymateb y Llywodraeth: Rheoliadau Deddf Diogelwch Adeiladau 2022 (Cychwyn Rhif 6) (Cymru) 2025

Gwaith craffu o dan Reol Sefydlog 21.7:

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y gwall hwn ac mae'n bwriadu gosod Rheoliadau diwygio cyn y dyddiad dod i rym, sef 1 Gorffennaf 2026, i gywiro'r testun Cymraeg.

SL(6)694 – Rheoliadau Deddf Caffael 2023 (Symiau Trothwy) (Diwygio) (Cymru) 2025

Cefndir a Diben

Sefydlodd Deddf Caffael 2023 ("**Deddf 2023**") bwerau gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru mewn perthynas â chaffael cyhoeddus Cymru.

Mae *Rheoliadau Deddf Caffael 2023 (Symiau Trothwy) (Diwygio) (Cymru) 2025* (y "**Rheoliadau**") yn diweddarau trothwyon ariannol penodol yn Atodlen 1 i Ddeddf 2023 ("**Atodlen 1**"), sy'n llywodraethu'r gweithdrefnau ar gyfer dyfarnu contractau cyhoeddus ar gyfer nwyddau, gwaith a gwasanaethau.

Mae'r trothwyon hynny yn pennu uwchlaw pa werth y mae contractau o wahanol fathau i gael eu rheoleiddio gan y gyfundrefn caffael cyhoeddus o sylwedd.

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi y bydd "y diwygiadau hyn yn dilyn adolygiad o'r trothwyon perthnasol i sicrhau eu bod yn parhau i gyfateb i'r trothwyon perthnasol a osodir yng Nghytundeb Sefydliad Masnach y Byd ar Gaffael Llywodraeth". Mae'n nodi ymhellach y bydd hyn yn sicrhau "bod y DU yn parhau i gydymffurfio â'i rhwymedigaethau rhyngwladol" ac y bydd yn "rhoi sicrwydd cyfreithiol i Awdurdodau Contractio Cymru, yn sicrhau cysondeb ar draws awdurdodaethau'r DU, ac yn lleihau'r risg o anghydfodau masnach".

Gweithdrefn

Negyddol

Gwnaed y Rheoliadau hyn gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Caiff y Senedd annilysu'r Rheoliadau o fewn 40 niwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Rhinweddau: craffu

Nodwyd y ddau bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

- 1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) - ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Rydym yn nodi y daeth y Rheoliadau hyn i rym ar 1 Ionawr 2026.



2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) - ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Nodwn fod y diwygiadau a wnaed i Atodlen 1 gan y Rheoliadau hyn wedi dod i rym bum munud yn ddiweddarach na diwygiadau ar wahân a wnaed i'r un ddarpariaeth gan reoliadau Senedd y DU.

Er ein bod yn fodlon bod Atodlen 1 fel y'i diwygiwyd yn gyfreithiol gadarn, rydym yn pryderu ynghylch anhygyrchedd a darllenadwyedd y gyfraith fel y'i cyhoeddwyd o ganlyniad i hyn.

Isod mae sgrinluniau o Atodlen 1 fel y'i cyrchwyd ar 13 Ionawr 2026 (12 diwrnod ar ôl i'r darpariaethau ddod i rym) o Legislation.gov a dwy wefan ddeddfwriaeth ar wahân sy'n seiliedig ar danysgriafiadau. Nodwn fod y testun cyn y tabl yn amrywio rhwng y tair fersiwn, yn ogystal â chynnwys y tabl ei hun.

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi y bydd y Rheoliadau hyn yn "*rhoi sicrwydd cyfreithiol i Awdurdodau Contractio Cymru*". Felly, rydym yn ystyried bod yr amrywiadau hyn yn hynod annymunol, yn ddryslyd ac yn ansicr i ddefnyddwyr y ddeddfwriaeth (gan gynnwys defnyddwyr proffesiynol).

Procurement Act 2023

1

◀ Previous: Provision

Next: Paragraph ▶

1

(1) [F1The threshold amount for a contract of a type referred to in the second column of the table below is [F2the threshold set out in the corresponding row of the third column.]

F3(c)

F4(d)]

	Type of contract	F5...	F6...	[F7 Threshold amount F8...
1	Defence and security contract that is a works contract	F5...	F6...	£5,193,000
2	Defence and security contract that is a concession contract	F5...	F6...	£5,193,000
3	Defence and security contract not within row 1, 2 or 8	F5...	F6...	£415,440

1

(1) [The threshold amount for a contract of a type referred to in the second column of the table below is—

(c) if the contract is regulated by the Welsh Ministers, the threshold set out in the corresponding row of the third column, and

(d) in any other case, the threshold set out in the corresponding row of the fourth column].

2

	Type of contract	Threshold amount[: contract regulated by Welsh Ministers]	[Threshold amount: any other contract [: contract regulated by Welsh Ministers]	[Threshold amount: any other contract]
1	Defence and security contract that is a works contract	£5,336,937	£5,372,609	[£5,193,000
2	Defence and security contract that is a concession contract	£5,336,937	£5,372,609	£5,193,000
3	Defence and security contract not within row 1, 2 or 8	£426,955	£429,809	£415,440



1

3

(1) [The threshold amount for a contract of a type referred to in the second column of the table below is [...]²]¹ [...]³ [

	Type of contract	Threshold amount [...] ⁵
1	Defence and security contract that is a works contract	£5,193,000
2	Defence and security contract that is a concession contract	£5,193,000
3	Defence and security contract not within row 1, 2 or 8	£415,440

Nodwn fod y Cwnsler Cyffredinol o dan ddyletswydd barhaus i adolygu hygyrchedd cyfraith Cymru o dan adran 1 o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019. Mae hyn yn cynnwys sicrhau ei bod yn cael ei chyhoeddi ar ffurf gyfredol (gan gynnwys dangos a oes deddfiadau mewn grym ac ymgorffori unrhyw ddiwygiadau iddynt), sicrhau ei bod yn hawdd ei deall a'i bod yn sicr o ran ei heffaith.

Gofynnir i Lywodraeth Cymru gadarnhau pa un o'r tri uchod sy'n adlewyrchu'r gyfraith sydd mewn grym yn gywir ar y dyddiad y mae'n ymateb.

Rydym hefyd yn gofyn am ymateb mewn perthynas â'n pryderon ehangach ynghylch hygyrchedd deddfwriaeth wedi'i diwygio.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru mewn cysylltiad â'r ail bwynt rhinweddau yn unig.

Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 19 Ionawr 2026 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.



Ymateb y Llywodraeth: Rheoliadau Deddf Caffael 2023 (Symiau Trothwy) (Diwygio) (Cymru) 2025

Pwynt Craffu ar Rinweddau 2: Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r pwynt craffu ar rinweddau a'r pryderon ynghylch yr amrywiadau a gafwyd wrth geisio cael mynediad at y diwygiadau i Atodlen 1 i Ddeddf Caffael 2023 drwy legislation.gov.uk a dwy wefan sy'n seiliedig ar danysgrifiadau.

Mae detholiad 1 yn adlewyrchiad cywir o'r gyfraith sydd mewn grym o 13 Ionawr 2026. Yn ogystal, ar adeg llunio'r ymateb hwn, nodwn ei bod yn ymddangos bod Westlaw hefyd erbyn hyn yn dangos paragraff 1 o Atodlen 1 i Ddeddf 2023 yn gywir.

Bu cyfreithwyr drafftio Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda Swyddfa'r Cwnsleriaid Deddfwriaethol a chyfreithwyr yn Llywodraeth y DU i sicrhau bod y Rheoliadau yn cyflawni bwriadau polisi'r ddwy Lywodraeth o fewn cyfyngiadau'r pwerau galluogi ym mharagraff 2 o Atodlen 1 i Ddeddf 2023.

Y bwriad oedd sicrhau bod y symiau trothwy yn Atodlen 1 yr un fath ar gyfer pob awdurdod contractio. Er mwyn cyflawni hyn, roedd angen i'r Offerynnau Statudol sy'n cynnwys y Rheoliadau gyd-fynd â'i gilydd er mwyn cynhyrchu'r canlyniad cywir yn Atodlen 1 i Ddeddf 2023. Gan hynny, gwnaed O.S. Llywodraeth y DU gyntaf i amnewid y symiau trothwy perthnasol mewn ffordd a oedd yn cydnabod y cyfyngiadau ar bŵer yr Ysgrifennydd Gwladol. Yna, gwnaeth O.S. Llywodraeth Cymru hepgor y cyfyngiad hwnnw pan gafodd y symiau trothwy a amnewidiwyd eu cymhwyso. Y bwriad oedd cynhyrchu un tabl yn Atodlen 1 a fyddai'n nodi bod y symiau trothwy yr un fath ar gyfer pob awdurdod contractio. Mae hyn wedi ei gyflawni fel y cydnabyddir gan y Pwyllgor ac fel sydd i'w weld ar legislation.gov.uk (ac ar Westlaw hefyd erbyn hyn).

Ystyriwyd dulliau eraill o ddrafftio a oedd yn cynnig diwygiadau i'r tabl mewn ffordd a oedd yn cyfyngu ar gymhwyso'r diwygiadau i Gymru yn unig. Fodd bynnag, roedd cyfreithwyr drafftio yn ymwybodol bod hyn yn groes i'r canllawiau a nodir ym mharagraff 7.28(3) o Drafftio Deddfau i Gymru.

O ran sylwadau mwy cyffredinol y Pwyllgor ynghylch cyfrifoldebau'r Cwnsler Cyffredinol o dan adran 1 o Ddeddf 2019, nodwn fod y Rheoliadau wedi eu gwneud ar 17 Rhagfyr a'u bod wedi dod i rym ar 31 Rhagfyr 2025. Fel y nodwyd gan y Pwyllgor, mae'r diwygiadau eisoes wedi eu cymhwyso i'r ffordd y mae'r ddeddfwriaeth wedi'i chyflwyno ar safle legislation.gov.uk. Mae hyn ymhell o fewn yr amserlenni a osodwyd gan y tîm golygyddol yn Yr Archifau Gwladol, sydd â'r nod o ddiweddarau deddfwriaeth ddiwygiedig o fewn tri mis ar y mwyaf i ddyddiad dod i rym diwygiadau newydd. Yn y rhan fwyaf o achosion, fodd bynnag, mae hyn yn cael ei wneud yn llawer cyflymach. Ym mhob achos, mae'r neges "newidiadau i ddeddfwriaeth" yn rhoi gwybod i ddarlennwyr os oes unrhyw effeithiau yn yr arfaeth. Fel y gŵyr Aelodau, daeth adran 37V o Ddeddf 2019 i rym ar 1 Ionawr 2026 ac, am y tro cyntaf, mae'n gosod dyletswyddau ar Argraffydd y Brenin ar gyfer Cymru i gyhoeddi deddfwriaeth Cymru fel y'i diwygiwyd. Er na fyddai hyn yn berthnasol i Ddeddf 2023, mae'r Llywodraeth ac yn wir Argraffydd y Brenin ar gyfer Cymru yn

croesawu cryfhau y trefniadau fel hyn ar gyfer cyhoeddi deddfwriaeth ar ffurf gyfredol.

Eitem 6.1

SL(6)698 – Cod Ymarfer Treuliau Etholiadau Ymgeiswyr Unigol (Etholiadau'r Senedd) 2025

Cefndir a Diben

Mae'r swm y gellir ei wario ar dreuliau etholiadol gan neu ar ran ymgeiswyr unigol ar gyfer etholiadau'r Senedd wedi'i gyfyngu gan *Orchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2025* ('**Gorchymyn 2025**').

Mae Rhannau 1 a 2 o Atodlen 7 i Orchymyn 2025 yn berthnasol i'r diffiniad o 'treuliau etholiadol'.

Mae *Cod Ymarfer Treuliau Etholiadau Ymgeiswyr Unigol (Etholiadau'r Senedd) 2025* ('**y Cod**') yn rhoi canllawiau ynghylch yr hyn sydd wedi'i gynnwys a'r hyn nad yw wedi'i gynnwys o fewn cwmipas Rhan 1 neu 2 o Atodlen 7 i Orchymyn 2025.

Nid yw'r Cod yn rhoi canllawiau i'r ymgeiswyr hynny sy'n sefyll i gael eu hethol i'r Senedd ar ran plaid wleidyddol (hynny yw, ymgeiswyr rhestr plaid).

Lluniwyd y Cod drafft gan y Comisiwn Etholiadol ac fe'i cyflwynwyd i Weinidogion Cymru i'w gymeradwyo. Cymeradwywyd y drafft gan Weinidogion Cymru ac fe'i gosodwyd gerbron y Senedd o dan baragraff 20(4) o Atodlen 7 i Orchymyn 2025.

Gweithdrefn

Drafft Negyddol.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Cod gerbron y Senedd. Os bydd y Senedd, o fewn 40 niwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y gosodwyd y drafft, yn penderfynu peidio â chymeradwyo'r Cod drafft, ni chaiff Gweinidogion Cymru ddyroddi'r Cod.

Os na wneir penderfyniad o'r fath, rhaid i Weinidogion Cymru ddyroddi'r Cod ar ffurf y drafft a osodwyd gerbron y Senedd, daw'r Cod i rym ar y dyddiad a bennir gan Weinidogion Cymru drwy orchymyn a wneir drwy offeryn statudol, a rhaid i'r Comisiwn Etholiadol drefnu i'r Cod gael ei gyhoeddi yn y modd y mae'n ystyried ei fod yn briodol.

Gwaith craffu o dan Reol Sefydlog 21.7

1. Nodwn baragraff 5 o'r Memorandwm Esboniadol sy'n datgan bod y fersiwn hon o'r Cod yn cynnwys diwygiadau a wnaed gan y Comisiwn Etholiadol i ymdrin â materion a nodwyd yn y fersiwn o'r Cod a dynnwyd yn ôl ac a osodwyd ar 13 Hydref 2025 ([SL\(6\)655](#)).
2. Ym mharagraff 1.1, mae gwahaniaeth rhwng y testunau Cymraeg a Saesneg. Yn y testun Saesneg, mae'n nodi: "*This Code of Practice on individual candidate election expenses for*



Senedd elections is issued by Welsh Ministers.... Yr hyn sydd yn y testun Cymraeg yw "Cyhoeddir y Cod Ymarfer hwn ar dreuliau etholiad ymgeiswyr unigol ar gyfer etholiadau'r Senedd wedi'i ddyroddi gan Weinidogion Cymru [...]" nad yw'n gwneud synnwyr.

3. Ym mharagraff 1.3, mae'r diffiniad o "treuliau etholiad" yn y testunau Cymraeg a Saesneg yn wahanol. Yn y testun Saesneg, mae'n nodi: "*'election expenses' has the meaning set out in article 65 of the 2025 Order*". Ond yn y testun Cymraeg, yn y bôn mae'n dyblygu testun diffiniad ar wahân ar gyfer "treuliau personol".
4. Ym mharagraff 1.3, yn y testun Cymraeg, mae'r term "treuliau etholiad" wedi'i ddiffinio. Fodd bynnag, drwy gydol y Cod, mae'r term yn amrywio a defnyddir "*treuliau etholiad*" a "*treuliau etholiadol*". Mae hyn yn cynnwys paragraffau 1.4 ac 1.13. Nodwn fod testun Cymraeg erthygl 65 o *Orchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2025* yn defnyddio'r term "*treuliad etholiad*".
5. Ym mharagraff 1.19, yn y testun Cymraeg, mae ffurf dreigledig ar yr ymadrodd "*mynd i*" wedi'i defnyddio i gyfieithu "*incurring*", sef y term safonedig yng Ngeirfa Uned Cyfieithu Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae term gwahanol "*ysgwyddo*" wedi cael ei ddefnyddio mewn mannau eraill i fynegi ystyr "*incur*" yn nhestun Cymraeg y Cod. Felly, mae anghysondeb yn nhestun Cymraeg y Cod. At hynny, ym mharagraffau 1.12, 3.3 a 9.5 a phennawd adran 7 o'r Cod, mae testun Cymraeg darpariaethau Gorchymyn 2025 a ddyfynnir wedi'i newid i ddefnyddio "*ysgwyddo*" i fynegi "*incur*" yn hytrach na'r ffurfiau ar "*mynd i*" a geir mewn gwirionedd yn nhestun Cymraeg y darpariaethau hynny yng Ngorchymyn 2025.
6. Ym mharagraff 3.1, yn y testun Cymraeg, mae ystyr "*relevant*" wedi cael ei fynegi drwy ddefnyddio'r gair "*berthnasol*". Fodd bynnag, yn nhestun Cymraeg paragraff 3.2, mae'r un gair "*berthnasol*" wedi cael ei ddefnyddio ar ddau achlysur i fynegi ystyr "*applies*". Felly, ni fydd darlennydd y testun Cymraeg yn gallu gwahaniaethu rhwng ystyr "*relevant*" ac "*applies*" wrth ddarllen y Cod. At hynny, mae anghysondeb drwy gydol testun Cymraeg y Cod oherwydd bod ffurfiau ar "*perthnasol*" a "*[bod] yn gymwys*" wedi cael eu defnyddio i fynegi ystyr "*apply*". Yn hyn o beth, mae'r term "*apply*" wedi'i safoni'n llawn fel "*bod yn gymwys*" yng Ngeirfa Uned Cyfieithu Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru.
7. Ym mharagraff 4.8, mae gwahaniaeth rhwng y testunau Cymraeg a Saesneg. Yn y testun Saesneg, mae'n nodi "*a social media channel*" ond yn y testun Cymraeg ceir "*sianel neu lwyfan cyfryngau cymdeithasol*". Mae hyn hefyd yn digwydd yn ddiweddarach ar ddiwedd paragraff 5.9 o'r Cod. Mae enghraifft debyg hefyd ym mharagraff 4.10 lle mae'r testun Saesneg yn nodi "*a social media platform*" ond ceir "*sianel neu lwyfan cyfryngau cymdeithasol*" yn y testun Cymraeg. At hynny, ym mharagraff 7.3, mae'r testun Saesneg yn datgan "*a channel or platform*" ond ceir "*sianel neu lwyfan cyfryngau cymdeithasol*" yn y testun Cymraeg.



8. Ym mharagraff 4.14, yn y testun Cymraeg, ar ddechrau'r trydydd pwynt bwled, mae'r gair "*pan*" ar goll i fynegi ystyr "*where*" fel y dylai nodi "*pan gafodd*" (fel y ceir yn ddiweddarach ym mharagraff 5.13).
9. Ym mharagraff 9.5, yn y geiriau ar ôl y ddau bwynt bwled cyntaf, mae gwahaniaeth rhwng y testunau Cymraeg a Saesneg. Yn y testun Saesneg, mae'n nodi "*where that*" ond yn y testun Cymraeg mae'n nodi "*pan fo mae'r*" nad yw'n gwneud synnwyr gramadegol.
10. Ym mharagraff 9.5, mae'r term "*election period*" wedi'i ddefnyddio yn y testun Saesneg. Yn y testun Cymraeg, mynegir y term drwy ddefnyddio ffurf dreigledig ar "*cyfnod etholiadol*" ond nodwn fod Gorchymyn 2025 yn defnyddio ffurf ar "*cyfnod yr etholiad*". Ar wahân i hynny, nodwn nad yw'r term '*election period*' wedi cael ei ddiffinio yn y Cod, ond ei fod wedi cael ei ddefnyddio yn y trydydd a'r pedwerydd pwyntiau bwled ym mharagraff 9.5. Felly, rydym yn cwestiynu a fyddai'n ddefnyddiol i'r darllenydd pe bai'r term hwn yn cael ei ddiffinio drwy gyfeirio at erthygl 69(6) o Orchymyn 2025.

Ymateb y Llywodraeth

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru mewn cysylltiad â phwyntiau 2-10.

Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 19 Ionawr 2026 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.



Ymateb y Llywodraeth - Cod Ymarfer Treuliau Etholiad Ymgeiswyr Unigol (Etholiadau'r Senedd) 2025

Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r pwyntiau adrodd ac yn darparu'r ymateb canlynol mewn perthynas â phob un o'r pwyntiau a godwyd:

Er bod Llywodraeth Cymru yn derbyn bod rhai anghysondebau o hyd, bernir nad yw'r rhain yn effeithio'n sylweddol ar y Cod.

Mae'r Comisiwn Etholiadol hefyd wedi cadarnhau nad yw'r pwyntiau a godwyd yn effeithio o gwbl ar effaith gyffredinol y Cod nac ar ei gymhwysiad. Ni fyddai'r pwyntiau a godwyd yn camarwain darllenwyr y Cod ac nid oes angen diffiniadau pellach.

Nid oes rheidrwydd ar y Comisiwn Etholiadol i ddrafftio yn unol â Drafftio Deddfau i Gymru a bydd yn drafftio mewn ffordd sy'n sicrhau cysondeb â dogfennau/canllawiau eraill a gynhyrchir ganddo.

Byddai diwygio'r Cod i ymdrin â'r anghysondebau yn golygu y byddai'n rhaid iddo gael ei dynnu'n ôl a'i ailosod am 40 diwrnod arall. Bernir y byddai unrhyw oedi pellach yn cael effaith er gwaeth ar randdeiliaid.

Prif amcan y Comisiwn Etholiadol yw i'r Codau ddod i rym cyn gynted â phosibl er mwyn osgoi unrhyw effaith bellach ar randdeiliaid, yn enwedig gan fod y Codau eisoes wedi'u gohirio y tu hwnt i ddechrau'r cyfnod rheoleiddiedig.

Fodd bynnag, bydd yr anghysondebau a godwyd yn cael eu nodi, ac eir i'r afael â hwy pan fydd y cyfle nesaf yn codi.

Eitem 6.2

SL(6)699 – Cod Ymarfer Gwariant Ymgyrch Pleidiau Gwleidyddol (Etholiadau'r Senedd) 2025

Cefndir a diben

Mae Cod Ymarfer Gwariant Ymgyrch Pleidiau Gwleidyddol (Etholiadau'r Senedd) 2025 ('y Cod') yn rhoi canllawiau ynghylch yr hyn sydd wedi'i gynnwys a'r hyn nad yw wedi'i gynnwys o fewn cwmplas paragraffau 1 a 2 o Ran 1 o Atodlen 8 i Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 ('PPERA 2000').

Mae'r paragraffau hynny'n berthnasol i'r diffiniad o 'gwariant ymgyrch' ac felly, yn benodol, i ba dreuliau y mae'n ofynnol i blaid wleidyddol roi gwybod i'r Comisiwn Etholiadol amdanynt. Mae paragraff 1 yn rhestru'r treuliau sy'n gymwys pan eir iddynt at ddibenion etholiad. Mae paragraff 2 yn rhestru'r eithriadau.

Lluniwyd y Cod drafft gan y Comisiwn Etholiadol ac fe'i cyflwynwyd i Weinidogion Cymru i'w gymeradwyo. Cymeradwyodd Gweinidogion Cymru y Cod drafft gydag addasiadau.

Y weithdrefn

Drafft Negyddol.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Cod gerbron y Senedd. Os bydd y Senedd, o fewn 40 niwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y gosodwyd y drafft, yn penderfynu peidio â chymeradwyo'r Cod drafft, ni chaiff Gweinidogion Cymru ddyroddi'r Cod.

Os na wneir penderfyniad, rhaid i Weinidogion Cymru ddyroddi'r Cod (ar ffurf y drafft), a daw'r Cod i rym ar ddiwrnod a bennir drwy orchymyn a wneir gan Weinidogion Cymru, a chaiff ei gyhoeddi gan y Comisiwn Etholiadol.

Gwaith craffu o dan Reol Sefydlog 21.7

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.7 mewn cysylltiad â'r Cod Ymarfer.

1. Mae anghysondeb rhwng paragraffau 11.3 o'r testunau Cymraeg a Saesneg. Mae'r testun Saesneg yn cyfeirio at "users of a channel or platform" tra bod y testun Cymraeg yn cyferirio at "ddefnyddwyr sianel neu lwyfan **cyfryngau cymdeithasol**". Nid yw'r cyfeiriad at gyfryngau cymdeithasol yn ymddangos yn y testun Saesneg.



Ymateb y Llywodraeth

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 19 Ionawr 2026 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd uchod.



**Ymateb y Llywodraeth - Cod Ymarfer Gwariant Ymgyrch Pleidiau Gwleidyddol
(Etholiadau'r Senedd) 2025**

Pwynt Craffu 1: Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r pwynt adrodd ac er ei bod yn derbyn yr anghysondeb, bernir nad yw'n effeithio'n sylweddol ar y Cod.

Mae'r Comisiwn Etholiadol wedi cadarnhau nad yw anghysondeb bach o'r fath rhwng y testunau Cymraeg a Saesneg yn effeithio'n sylweddol mewn unrhyw fodd ar effaith gyffredinol y Cod nac ar ei ystyr, ac nad oes angen ei ddiwygio na chymryd unrhyw gamau pellach.

SL(6)700 – Cod Ymarfer Gwariant Ymgyrch Ymgyrchwyr Nad Ydynt yn Bleidiau (Etholiadau'r Senedd) 2025

Cefndir a Diben

Mae Cod Ymarfer Gwariant Ymgyrch Ymgyrchwyr Nad Ydynt yn Bleidiau (Etholiadau'r Senedd) 2025 ('y Cod') yn rhoi canllawiau ynghylch gweithredu Rhan 6 o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 ('PPERA 2000') ar gyfer trydydd partïon yn ystod y cyfnod rheoleiddiedig ar gyfer etholiadau'r Senedd, gan gynnwys yn ystod cyfnod rheoleiddiedig cyfunol lle y bo'n gymwys.

Mae'r Cod yn nodi:

- beth yw ymgyrchydd nad yw'n blaid;
- beth yw ymgyrchu di-blaid;
- y mathau o dreuliau sy'n dreuliau cymwys;
- o dan ba amgylchiadau y mae treuliau i'w hystyried, neu nad ydynt i'w hystyried, yn dreuliau a ysgwyddir er mwyn hyrwyddo neu sicrhau llwyddiant etholiadol;
- y mathau o wariant sy'n cael eu trin fel rhoddion neu wariant tybiannol a reolir;
- yr amgylchiadau a fydd yn cael eu hystyried yn ymgyrchu ar y cyd;
- beth yw gwariant a reolir wedi'i dargedu a phryd y mae'n berthnasol; a hefyd
- y gofynion cofnodi ac adrodd (gan gynnwys ar gyfer cyfnodau rheoleiddiedig cyfunol).

Gweithdrefn

Negyddol drafft.

Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod drafft o'r Cod gerbron y Senedd. Os bydd y Senedd, o fewn 40 niwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y gosodwyd y drafft, yn penderfynu peidio â chymeradwyo'r Cod drafft, ni chaiff Gweinidogion Cymru ddyroddi'r Cod.

Os na wneir penderfyniad, rhaid i Weinidogion Cymru ddyroddi'r Cod (ar ffurf y drafft), a daw'r Cod i rym ar ddiwrnod a bennir drwy orchymyn a wneir gan Weinidogion Cymru, a'i gyhoeddi gan y Comisiwn Etholiadol.



Gwaith craffu o dan Reol Sefydlog 21.7

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.7 mewn perthynas â'r cod hwn.

(i) Anghysondebau rhwng ystyr testun Cymraeg a thestun Saesneg

1. Ym mharagraff 1.10, yn y diffiniad o "ymgeisydd rhestr plaid", mae gwahaniaeth rhwng y testun Saesneg a'r testun Cymraeg. Yn y testun Saesneg, mae'n nodi "has the same meaning as **article 2** of the Senedd Cymru (Representation of the People) Order 2025". Ond mae'r testun Cymraeg yn nodi "yr un ystyr ag **adran 2** o Orchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2025". Yn ogystal, dylid nodi yn nhestun y ddwy iaith fod ganddo'r un ystyr ag "**yn** erthygl 2" a byddai'n fwy manwl gywir cyfeirio at erthygl **2(1)** o Orchymyn 2025.
2. Ym mharagraff 6.18, yn y frawddeg gyntaf, mae gwahaniaethau rhwng y testun Saesneg a Chymraeg. Ar ddechrau'r frawddeg honno yn y testun Saesneg, mae'n nodi "If the political party use the..." mae'r testun Cymraeg yn nodi "Os bydd y blaid wleidyddol gofrestredig yn defnyddio'r...". Yn ogystal, ar ddiwedd y frawddeg honno yn y testun Saesneg, mae'n nodi "on behalf of the registered political party" ond mae'r testun Cymraeg yn nodi "ar ran yblaid wleidyddo".

(ii) Defnydd anghyson o dermau yn y testun Cymraeg

3. Ym mharagraff 1.10, yn y testun Cymraeg, mae'r term "notional controlled expenditure" wedi'i ddiffinio fel "gwariant **tybiannol** a reolir". Fodd bynnag, mae term gwahanol, sef "gwariant a reolir **tybiannol**", yn cael ei ddefnyddio yn y testun Cymraeg ym mharagraff 1.8 ac ym mhennawd adran 6 o'r Cod. Nid yw'r diffiniad yn gyson, felly, â'r term a ddefnyddir yn nhestun Cymraeg y Cod.

(iii) Materion drafftio eraill

4. Ym mharagraff 1.10, diffinnir y term "ysgwyddo" ar gyfer y Cod. Fodd bynnag, nid yw'r term hwn wedi'i ddiffinio yn y Codau cysylltiedig eraill. Felly, a oes rheswm dros y dull gwahanol a pham mae'r term wedi'i ddiffinio ar gyfer y Cod hwn ond nid ar gyfer y Codau cysylltiedig eraill?
5. Ym mharagraff 1.10, nid oes diffiniad o'r term "rhestr plaid" er ei fod yn cael ei ddefnyddio ar un achlysur ym mharagraff 3.12 o'r Cod ac yn derm sydd wedi'i ddiffinio yn erthygl 2(1) o Orchymyn 2025. Felly, dylid diffinio'r term hwn yn y Cod hefyd os bwriedir iddo fod â'r un ystyr ag a roddir gan erthygl 2(1) o Orchymyn 2025.
6. Ym mharagraff 1.10, yn y diffiniad o "cyfnod a reoleiddir", mae'r cyfeiriad yn anghyflawn lle mae'n nodi "Mae adran 89B(6) yn cyfeirio at y cyfnod hwn" gan nad yw'n nodi'r Ddeddf sy'n cynnwys yr adran honno. Mae cyfeiriadau eraill ym mharagraff 1.10 fel arfer wedi cynnwys "o PPERA" wrth gyfeirio'r darlennydd at adrannau o'r Ddeddf honno.



7. Yn y pennawd uwchben paragraff 6.17, ac ym mharagraff 6.18, defnyddiwyd y term “plaid wleidyddol gofrestredig” (er mewn gwahanol leoedd yn nhestunau’r ddwy iaith o baragraff 6.18). Fodd bynnag, ym mharagraff 1.10, diffinnir y term “plaid wleidyddol” fel plaid sydd wedi’i chofrestru o dan Ran 2 o PPERA. Os nodir y diffiniad o “plaid wleidyddol” fel plaid sydd wedi’i chofrestru o dan Ran 2 o PPERA, mae’n ymddangos bod y gair “cofrestredig” yn y disgrifiadau hynny yn ddiangen. Mae, hefyd, o bosibl yn gamarweiniol i’r darlennydd os yw’r termau “plaid wleidyddol” a “phlaid wleidyddol gofrestredig” yn dwyn yr un ystyr yn y Cod.

Ymateb y Llywodraeth

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 19 Ionawr 2026 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.



Ymateb y Llywodraeth - Cod Ymarfer Gwariant Ymgyrch Ymgyrchwyr Nad Ydynt yn Bleidiau (Etholiadau'r Senedd) 2025

Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r pwyntiau adrodd ac yn darparu'r ymateb canlynol mewn perthynas â phob un o'r pwyntiau a godwyd:

Er bod Llywodraeth Cymru yn derbyn bod rhai mân anghysondebau o hyd, bernir nad yw'r rhain yn effeithio'n sylweddol ar y Cod.

Mae'r Comisiwn Etholiadol hefyd wedi cadarnhau nad yw'r pwyntiau a godwyd yn effeithio o gwbl ar effaith gyffredinol y Cod nac ar ei gymhwysiad. Ni fyddai'r mân anghysondebau a godwyd yn camarwain darllenwyr y Cod ac nid oes angen diffiniadau pellach.

Nid oes rheidrwydd ar y Comisiwn Etholiadol i ddrafftio yn unol â Drafftio Deddfau i Gymru a bydd yn drafftio mewn ffordd sy'n sicrhau cysondeb â dogfennau/canllawiau eraill a gynhyrchir ganddo.

Byddai diwygio'r Cod i ymdrin â'r mân anghysondebau yn golygu y byddai'n rhaid iddo gael ei dynnu'n ôl a'i ailosod am 40 diwrnod arall. Bernir y byddai unrhyw oedi pellach yn cael effaith er gwaeth ar randdeiliaid.

Prif amcan y Comisiwn Etholiadol yw i'r Codau ddod i rym cyn gynted â phosibl er mwyn osgoi unrhyw effaith bellach ar randdeiliaid, yn enwedig gan fod y Codau eisoes wedi'u gohirio y tu hwnt i ddechrau'r cyfnod rheoleiddiedig.

Fodd bynnag, bydd y mân anghysondebau a godwyd yn cael eu nodi, ac eir i'r afael â hwy pan fydd y cyfle nesaf yn codi.

DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL Ymgynghoriad ar Newidiadau Arfaethedig i Gynlluniau Ffioedd a Thaliadau Awdurdodau Lleol o dan Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016

DYDDIAD 23 Ionawr 2026

GAN Huw Irranca-Davies AS, y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig

Heddiw, rwy'n lansio ymgynghoriad cyhoeddus chwe wythnos ar gynigion i ddiweddarau ein Cynlluniau Ffioedd a Thaliadau Awdurdodau Lleol, a wnaed o dan Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016.

Mae'r cynlluniau hyn yn galluogi Awdurdodau Lleol yng Nghymru i adennill y costau sy'n gysylltiedig â rheoleiddio gweithgareddau diwydiannol penodol sydd â'r potensial i effeithio ar yr amgylchedd ac iechyd y cyhoedd. Mae gweithgareddau o'r fath yn cynnwys sychlanhau, ail-chwistrellu cerbydau, llosgi gwastraff ar raddfa fach ac ati.

Gwnaed y cynlluniau presennol yn 2016 ac nid ydynt wedi'u diweddarau ers hynny.

Bydd y newidiadau arfaethedig yn defnyddio cynnydd chwyddiant o 44.29% i ffioedd a thaliadau presennol, gan adlewyrchu chwyddiant cronus ers 2016.

Bydd y cynnydd yn helpu i sicrhau y gall Awdurdodau Lleol barhau i ddarparu eu gwasanaethau hanfodol a'u swyddogaethau rheoleiddio cysylltiedig yn effeithiol. Mae'r rhain yn cynnwys penderfynu ar geisiadau am drwyddedau, cynnal archwiliadau arferol ac ataliol ac ymgymryd â gorfodi rhagweithiol. Mae'r gwaith hwn yn helpu i sicrhau bod busnesau'n cydymffurfio â safonau amgylcheddol yn unol â gofynion deddfwriaethol. Mae hyn hefyd yn cydymffurfio â'r egwyddor llygrydd yn talu sy'n nodi bod costau llygredd yn cael eu talu gan y rhai sy'n ei achosi, yn hytrach na'r gymuned ehangach.

Yn ogystal â cheisio barn ar y cynnydd arfaethedig, mae'r ymgynghoriad hefyd yn gwahodd adborth ar yr angen am adolygiad mwy cynhwysfawr o'r cynlluniau yn y dyfodol. Byddai'r adolygiad pellach hwn yn archwilio strwythur a gweithrediad y cynlluniau i helpu i nodi a ellid gweithredu gwelliannau i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn gymesur ac yn addas i'r diben.

Bydd ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn llywio penderfyniad terfynol Llywodraeth Cymru ynghylch a ddylid gweithredu'r cynlluniau wedi'u diweddarau, y bwriedir iddynt ddod i rym ym mlwyddyn ariannol 2026–27.

[Mae dogfennau ymgynghori a manylion ynghylch sut i ymateb ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru ar](#)

David Rees MS, Chair of the Member Accountability Bill Committee
By email

23 January 2026

Dear David,

The Standards of Conduct Committee met on 19 January and noted your letter relating to the Member Accountability Bill Committee and the recommendations relevant to the Committee. The Committee welcomed the work of your Committee on the Bill and noted the report and the recommendations as a whole.

The Committee previously recommended the introduction of lay members for the Standards of Conduct Committee as part of its inquiry on deliberate deception. We therefore believe it is important to be clear that these provisions have been included in the legislation as a result of our report and recommendations, even though we are not responsible for the legislation as a whole.

However, having now seen how the recommendation has been incorporated into the draft Bill, the Committee has further considered the wider benefits of the role of lay members within the broader standards landscape and are clear that the introduction of lay members is also relevant to our current work on strengthening the standards framework in relation to dignity and respect matters. Indeed, one of the key suggestions the Committee is considering is the use of sub-Committees and lay members to handle complaints from Members' support staff or to provide independent expertise.

We note that your committee is supportive of the majority of the policy provisions, subject to some improvements which you put forward, however we also note the concern expressed in Conclusion 8 of the report, that limitations on the Senedd's ability to design its own procedures must be kept to a minimum.

Whilst this is something the Standards committee can empathise with the rationale on, we are concerned about an aspect of Recommendation 8 (which is based on Conclusion 8) that removes two parameters we would ordinarily expect to find on the face of primary legislation - namely the maximum length of appointment and the restriction on the number of terms a lay member may serve. We recognise that there will be a need for additional Standing Orders provisions to be agreed in the Seventh Senedd, but we are concerned that your recommendation would result in the removal of these two valuable parameters from the appointment process and potentially risk its implementation.

The Committee is of the view these parameters are more typically found in legislation rather than in Standing Orders, in order to provide clarity during the process of such appointments. The Committee would therefore welcome, rather than the removal of these parameters, the legislation sets out that:


- Lay members should be appointed for a maximum term of five years, and
- an appointment should be renewable only once .

Retaining the provisions outlined above would still allow the Senedd discretion where necessary in relation to the length of appointment as an appointment could be less than 5 years if necessary. It would also provide discretion in establishing how lay members would operate while providing a clear structure consistent with other such legislation making provision for appointments by the Senedd (the National Assembly for Wales Commissioner for Standards Measure 2010).

Enabling the Senedd to appoint lay members through this legislation is important to maintaining public confidence in the Senedd's commitment to a robust and credible standards framework for the Seventh Senedd. Importantly, including a clear legislative framework will also support the next Senedd in progressing it at the earliest opportunity.

I have copied this letter to the Counsel General, Llywydd and Chair of Legislation, Justice and Constitution Committee given its relevance to them.

Yours sincerely,



Hannah Blythyn MS

Chair

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.





Short Term Accommodation Association
310 Vox Studios, Durham Street
London
SE11 5JH

Mark Drakeford AS/MS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg
Cabinet Secretary for Finance and Welsh Language
Cardiff Bay
CF99 1SN

Cc: Economy, Trade and Rural Affairs Committee
Legislation, Justice and Constitution Committee

23 January 2026

Subject: Development of Tourism and Regulation of Visitor Accommodation Bill

Dear Cabinet Secretary,

I am writing to you as the Chief Executive of the STAA (Short-Term Accommodation Association), the UK-wide trade association for the short-term rental industry. We represent and support the thousands of individuals in Wales (as well as the wider UK) who let out their homes and rooms in this vital part of the tourism sector, and the businesses who support them.

The STAA appreciates the ongoing work put into designing the Development of Tourism and Regulation of Visitor Accommodation (Wales) Bill and we are grateful to have been given the opportunity to submit evidence before the Economy, Trade and Rural Affairs (ETRA) Committee. It has been encouraging to see our comments addressed and some of our recommendations taken on board. Still, there are a number of concerns the STAA retains around the content of the Bill and the direction in which the Bill is progressing. We outline these below.

Further Senedd approval: The STAA and the wider sector support the principles of the Bill. We also welcome the fact the Welsh Government has learnt lessons from Scotland and that you have committed to engaging with the sector further so that we can make this licensing scheme one that truly develops (rather than erodes) the Welsh tourism industry. However, we share ETRA and JLC committees' concern with the haste with which this Bill has been introduced and the lack of scrutiny of the wording of the Bill. We find that flaws in the drafting and areas of subjectivity mean that the Bill fails to provide businesses with the certainty and confidence they need.

The STAA thus strongly supports Recommendation 3 from the Stage 1 report by the ETRA committee, i.e. we call on the Welsh Government to amend the Bill at Stage 2 to make commencement of the licensing scheme subject to further Senedd approval. Given the rushed timeline of the Bill, a full Senedd vote prior to scheme coming into force would enhance the democratic legitimacy of the legislation. This would allow for the engagement with the sector you have promised and for the numerous delegated matters, and those subjective matters left to guidance, to be developed properly without delaying the passing of the Bill.

Capacity assessment: We appreciate you confirming that the Welsh Government officials will review the evidence provided by the STAA around expected processing time and cost of licence applications.

Clear evidence from the government of an impact assessment proving that officials have the necessary resources and capacity to process applications at pace would go a long way towards mitigating the uncertainty faced by businesses. We would be pleased to have a dedicated meeting with your officials, to talk through our evidence in more detail and work with them to craft the necessary assurances that licences can be processed in a quick and timely manner, should our concerns around “apply and wait” as set out below not be addressed.

“Apply and wait” approach: The STAA would like to reiterate its concerns around the current “apply and wait” approach. This approach provides great uncertainty to businesses who will be left with uncertainty about whether they will be able to continue operating and accept future bookings while awaiting the outcome of their application. Lessons from the equivalent scheme in Scotland support this – reduced supply of accommodation caused issues during major events and this was due not to the fact that these premises had been deemed unsafe but that many licenses had yet to be approved. These concerns are exacerbated by the current uncertainty around processing times. We support instead an “apply and go” approach, where a VAP is granted an automatic licence number on submission of the application with the required documents, followed by a risk-based approach to document checks and a right to rectify any mistakes before a license is revoked. We understand there is an industry consensus around this; technology allows it to be possible and it is in line with best practice being increasingly adopted in other jurisdictions.

Clarification on license length: The STAA welcomes the proposed amendment to allow for a longer minimum licence period to be specified. However, we believe this should be clarified in stronger terms. Rather than a provision to grant longer licenses, we call for the starting point to already be licenses that last longer than one year. Three years would be in line with international best practice.

Sections 46 and 47: We ask for further clarification of what sections 46 and 47 offences would actually require of booking platforms. While our platform members are keen to cooperate by ensuring ‘compliance by design’, e.g. by making a registration number mandatory on all listings, and ensuring that inputted numbers have to follow a consistent format, they should not be held liable for something out of their control. We believe that platforms having robust ‘notice and takedown’ processes in place to ensure that non-compliant listings are swiftly removed when brought to their attention should be sufficient to act as a reasonable defence, and we believe it is important that this be clarified before the legislation completes its parliamentary process. We would welcome further detail on how platforms, agents and property managers would be able to verify registration numbers.

Again, we would reiterate that accepting the ETRA committee’s Recommendation 3 to make the launch of the scheme subject to further Sennedd approval would allow the Welsh Government and the sector to work collaboratively on this detail before the scheme is operational.

Thank you for taking the time to consider our concerns. I would be very open to discussing any of these matters further with you and your officials prior to the Stage 2 debate.

Kind regards,

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Andy Fenner'.

Andy Fenner,
STAA Chief Executive